



# Llais Bro Aled

**Dydd Sul, 11 Ebrill 2021**

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Gobeithio fod pawb ohonoch wedi cael cyfle i fwynhau Pasg bendithiol cyn i'r rhew a'r eira ddychwelyd i'n hoeri'r wythnos hon! Wn i ddim faint ohonoch gymrodd fantais ar yr hawl i grwydro neu i ymweld â gerddi pobl eraill, ond mae hi'n parhau i fod yn gyfnod digon rhyfedd. Beth fydd yn digwydd nesaf, a phryd fydd hynny'n digwydd? Dyna'r cwestiynau mwyaf cyffredin. A gallwn ddychmygu mai cwestiynau digon tebyg oedd yn chwarae ar feddyliau'r disgyblion hefyd. Yn dilyn y sioc a'r gorfoledd o weld Iesu wedi codi'n fyw o'r bedd, bu'r Iesu atgyfodedig yn eu plith am 40 diwrnod cyn Ei esgyniad. Tybed beth oedd y disgyblion yn feddwl fyddai'n digwydd nesaf?

Mae un hanes o'r cyfnod arbennig hwn i'w weld yn Ioan 21:1-14. Rwy'n hoff iawn ohono oherwydd y cyfuniad o allu rhyfeddol Iesu yn arwain at ddalfa enfawr o bysgod (153 i fod yn fanwl gywir!), ac yna'r olygfa gwbl naturiol o Iesu'n paratoi picnic i'w gyfeillion ar lan y môr!

A sylwch ar y ffordd y mae Iesu'n ymddwyn. Hyd yn oed wedi Ei fuddugoliaeth un waith am byth, nid yw Ei gymeriad wedi newid. Mae Iesu'n dymuno treulio amser yng nghwmni ei ddisgyblion a'u gwasanaethu mewn ffordd hynod o ymarferol. Meddylwch – y Meseia sydd newydd goncro pechod a marwolaeth yn paratoi pryd o fwyd, ac yn pasio'r bara a'r pysgod rhwng ei ffrindiau!

Onid oes yna wers i ni o'r hanes hwn? Mor hawdd y gallai'r disgyblion fod wedi holi perfedd Iesu am y camau nesaf, a thrwy hynny gollir hyfrydwch o fod yn Ei gwmni. Ac mae'n demtasiwn i ninnau wneud rhywbeth tebyg. Mae'n gwbl naturiol i ni ystyried beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, ond mae yna berygl i ni feddwl cymaint am beth a phryd nes ein bod yn anwybyddu'r presennol gan gollu golwg ar ras Duw i ni heddiw. Pan ofynnodd y disgyblion yn ddiweddarach i Iesu ynglŷn â'r hyn oedd i ddod, yr ateb a gawsant oedd, "Does dim rhaid i chi wybod beth ydy'r amserlen mae Duw wedi'i threfnu. Ond bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb – yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria, a drwy'r byd i gyd." (Actau 1:7-8 Beibl.net)

## Cofion

Anfonwn ein cofion at Lowri Taylor (Llansannan) a dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd dros y penwythnos. Gobeithio y cei di wellhad llwyr a buan Lowri.

Anfonwn ein cofion at bawb arall o'r ofalaeth hefyd, yn arbennig felly y rhai ohonoch sydd heb fod yn dda eich iechyd ar hyn o bryd. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid hefyd.

Parhawn i gofio hefyd am y rhai hynny o'n plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn eich bod yn profi Duw yn agos a'ch bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

## Casgliad y Chwiorydd

Derbyniwyd cyfanswm o £551.00 gennych tuag at Gasgliad Arbennig Chwiorydd y Gogledd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Diolch am eich haelioni.

Cofiwch y bydd Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yn cael ei gynnal yn rhithiol eleni a hynny ar ddydd Iau, Mai 6<sup>ed</sup>. (Manylion ymuno i ddilyn.) Y thema fydd 'Myfi yw'r Bugail Da'. Mae'r gwasanaeth wedi ei baratoi gan Chwiorydd Capel y Traeth, Cricieth a bydd anerchiad gan Mererid Hopwood.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (21<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.

Diolch i haelioni rhyfeddol Duw, a thrwy waith gorffenedig Iesu, mae gan y Cristion addewidion bendigedig i fyfyrion arnynt, yn enwedig pan fyddwn yn profi gorthymderau (2 Corinthiaid 4:16-18). Ac mae Iesu'n fyw, felly gallwn wynebu pob dydd a phob sefyllfa gydag Ef gan wybod "Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat ddim." (Hebreaid 13:5)

*Rhodri*

## Dosbarth Derbyn

Bwriedir cynnal sesiynau ar-lein fydd yn gyflwyniad i Gristnogaeth i'r rhai sydd â diddordeb cael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol. Os oes gennych ddiddordeb, a wnewch chi roi eich enw i Rhodri neu Mair erbyn diwedd mis Ebrill, os gwelwch yn dda? Diolch i'r rhai ohonoch oedd wedi dangos diddordeb cyn i'r cyfnod clo ddod i rym – croeso i unrhyw un arall hefyd i ymuno.

## Baby Basics Dyffryn Clwyd

Mae Baby Basics Dyffryn Clwyd yn falch iawn eu bod yn gallu parhau i gefnogi mamau a theuluoedd ifanc yr ardal. Ar hyn o bryd, maen nhw'n brin o 'scratch mitts', neu os oes rhai ohonoch ag awydd gwnio bagiau i ddal pethau ymolchi i'r mamau, byddai hynny hefyd yn help mawr. Ond yn wir, os bydd gennych unrhyw eitemau i'w cyfrannu (i'r fam neu'r plentyn), gallwch fynd â nhw i Baby Basics Dyffryn Clwyd, Uned B10, Trem y Dyffryn, Dinbych LL16 5TX ac mi fydden nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. (Ar fore Mercher mae'r uned ar agor fel arfer, neu cysylltwch â Mair ac fe wnawn drefnu i'w casglu gennych.)

Os byddwch yn dymuno cyfrannu'n ariannol, croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Baby Basics Dyffryn Clwyd' wedi ei ysgrifennu ar gefn y siec. Gwn hefyd y bydden nhw wir yn ddiolchgar os oes rhai sy'n medru cyfrannu'n ariannol yn gyson trwy archeb banc. Cysylltwch os byddwch eisiau'r manylion. Diolch am eich cefnogaeth bob amser.

## Cyhoeddiadau'r Fro

(Cofiwch, os nad yw'n bosib i chi ymuno â'r oedfaon ar fore Sul, mae modd i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. Mae'r holl oedfaon sydd wedi eu darlledu i'w cael trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com]).

**Sul – 11<sup>eg</sup>**

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)

**Mercher – 14<sup>eg</sup>**

- **Grwpiau Tai** yn cyfarfod ar Zoom am 7.30.

**Sul – 18<sup>fed</sup>**

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)

**Sul – 25<sup>ain</sup>**

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)